STRATEGAETH CAFFAEL GWASANAETH TÂN AC ACHUB CYMRU

CYNNWYS

PENNOD 1
Gweledigaeth i'r Gwasanaeth Tân ac Achub

PENNOD 2
Cyd-destun y Strategaeth

PENNOD 3
Ym mhle mae'r strategaeth yn ffitio?

PENNOD 4
Diffiniad o gaffael

PENNOD 5
Agwedd cydweithrediadol newydd

PENNOD 6
Y ffit orau – Cenedlaethol/Rhanbarthol

PENNOD 7
Amcanion caffael:

- WFRSP1 Caffael yn genedlaethol
- WFRSP2 Caffael i Gymru
- WFRSP3 Hyfforddiant a datblygiad
- WFRSP4 Systemau caffael a pherfformiad
- WFRSP5 Cynaladwyedd ac amrywiaeth
- WFRSP6 Rheoli risg
- WFRSP7 Cost ac arbedion effeithlonrwydd
- WFRSP8 Rheoli cytundebau a pherfformiad
- WFRSP9 Gwasanaethau Technegol

- WFRSP10 e-Gaffael

ATODIAD 1
Swyddogaeth Caffael Ganolog

PENNOD 1
Gweledigaeth i'r Gwasanaeth Tân ac Achub

Ar y 10fed o Dachwedd 2004, daeth Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i rym, a oedd yn datganoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) yng Nghymru yn ffurfiol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yn 2005, amlinellodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ei flaenoriaethau a'i amcanion ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (ATA) yn ei ddogfen 'Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru". Roedd yn hyrwyddo diogelwch y cyhoedd yn ogystal â chynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Awdurdodau. Mae'r Fframwaith yn disgwyl bod GTA yn:-

1. Sicrhau cydweithredu ledled Cymru a dros y ffin briodol wrth ddatblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol, ac mewn perthynas â'r agenda diogelwch rhag tân yn y gymuned
2. Gweithio i atal tanau a rheoli risg, yn cynnwys datblygu Cynllun Rheoli Risg Integredig (IRMP) – sydd wedi newid erbyn hyn i'r Cynllun Lleihau Risg (RRP)
3. Sicrhau ymateb proffesiynol ac effeithiol i amryw o ddigwyddiadau
4. Addasu a newid yn ôl y galw, yn cynnwys datblygu'r gallu i ymateb i fygythiadau gan frawychwyr a thrychinebau mawr naturiol neu o waith dyn
5. Rheoli staff GTA mewn modd teg ac effeithiol, yn cynnwys y materion pwysig o gydraddoldeb ac amrywiaeth
6. Gweithredu'r RRP a darparu hyfforddiant
7. Ymdrin yn effeithiol â materion yn ymwneud â rheolaeth ariannol a nawdd
8. Gweithredu i gefnogi agenda ehangach y Cynulliad, yn cynnwys cynhwysiad cymdeithasol, cynnwys cymunedau a gwaith ieuenctid

Mae'n hanfodol bod y swyddogaeth caffael oddi fewn i'r GTA yn gwbl gefnogol i gyflawni'r weledigaeth hon a'r agenda foderneiddio. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i gaffael i fod wrth wraidd penderfyniadau o fewn y gwasanaeth, fel bod modd iddo gyfrannu'n llwyr at y gwaith hwn.

Mae'r ddogfen Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru 2008-2011, a baratowyd yn ddiweddar, yn cyfeirio at y Strategaeth Caffael hon ac at Grŵp Caffael CFOA Cymru fel llais Caffael y GTA yng

Nghymru. Y gydnabyddiaeth hon gan y Cynulliad o rôl Caffael wrth ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol yw'r cam cyntaf wrth sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei chyflawni mewn partneriaeth gyda'r Cynulliad.

PENNOD 2
Cyd-destun y strategaeth

Cydnabuwyd pwysigrwydd agwedd strategol a chydweithrediadol at gaffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, ar y lefel uchaf, pan gyhoeddwyd 'Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru' yn Hydref 2004, a oedd yn nodi '***Caffael Craffach'*** fel yr allwedd i ryddhau **£120 miliwn** mewn effeithlonrwydd gwerth am arian.

Nid yw'r gydnabyddiaeth gynyddol i effaith caffael effeithiol yng Nghymru wedi bod mor amlwg erioed, ac eisoes mae cyfuniad o arloesedd, profiad ac adnoddau wedi cyflawni'r math o welliannau effeithlonrwydd sy'n gwneud gwir wahaniaeth i'r llinell isaf, ac felly i gyflawni gwasanaethau cyhoeddus y rheng flaen.

Mae'r ddogfen strategaeth hon yn amlinellu sut mae GTA Cymru yn ceisio mabwysiadu agwedd strategol dilys at gaffael, a fydd yn ategu ei ymdrechion i ddatgloi'r effeithlonrwydd hwn a chyflawni gwir werth am arian. Wrth gymryd edrychiad cyfannol ac integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy ac e-gaffael trwy'r holl weithgareddau, medr y sector cyhoeddus optimeiddio effaith cadarnhaol caffael cyfrifol, gan sicrhau fod arbedion yn ymwneud, yn gydradd, ag optimeiddio costau oes gyfan.

PENNOD 3
Ym mhle mae'r strategaeth yn ffitio?

Mae adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004, Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru a'i gynllun gweithredu yn 2005 Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth, yn gosod y strategaeth ar gyfer caffael sector cyhoeddus yng Nghymru, yn effeithiol, ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2010.

Wrth gefnogi cyflawni'r strategaeth hwn, mae Gwerth Cymru wedi paratoi cynllun ffynonellau strategol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, "Bod yn fwy craff wrth brynu – Rhannu Llwyddiant". Mabwysiadwyd y cynllun ffynonellau, sy'n ceisio sicrhau agwedd cwbl strategol at gaffael, ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn seiliedig ar agwedd nwyddau/portffolio.

Yn ogystal, mae FireBuy wedi sefydlu strategaeth ar gyfer caffael nwyddau ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yn benodol.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio alinio gweithgareddau caffael GTA Cymru gyda strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru (ar gyfer nwyddau nad sy'n benodol i'r gwasanaeth) a FireBuy (ar gyfer gofynion penodol y GTA), gan sicrhau fod cyfraniad caffael strategol yn cael ei facsimeiddio.

PENNOD 4
Diffiniad o gaffael

4.1 Y diffiniad o gaffael yn y Strategaeth Caffael Genedlaethol ar gyfer Llywodraeth Leol, i ddisgrifio amrywiaeth eang o brosesau busnesau sydd ynghlwm wrth weithgareddau caffael, yw:

"Caffael yw'r broses o gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau oddi wrth drydydd parti. Mae'r broses yn cynnwys y ***cylched cyfan*** *o adnabod anghenion, trwodd i ddiwedd cytundeb gwasanaethau neu ddiwedd oes ddefnyddiol ased. Mae'n cynnwys gwerthuso opsiynau a'r penderfyniad 'gwneuthur neu brynu' holl bwysig..."*

4.2 Mewn perthynas â Gwerth Gorau, mae'r Strategaeth yn mynd ymlaen i ddweud:

"...mae dod o hyd i'r 'gwerth gorau am arian' yn golygu dewis cynnig sy'n cynnig 'y cyfuniad gorau posib o gostau oes gyfan a manteision i ddiwallu gofynion y cwsmer'. Nid yr opsiwn pris isaf cychwynnol yw hwn o anghenraid, ac mae'n galw am asesu costau refeniw/adnoddau parhaus, yn ogystal â buddsoddiad cyfalaf cychwynnol."

4.3 Felly, ystyrir mai swyddogaethau caffael yw:

Adnabod angen busnes

Mae'n rhaid bod gan gaffael rôl allweddol wrth adnabod angen am offer, adeiladau neu wasanaethau trwy gynlluniau pwrcasu ac archwilio Cyllidebau Refeniw/Taliadau Cyfalaf.

Gwasanaethau Technegol (a gyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel ymchwil a datblygiad)

Yn cynnwys cynnal asesiadau risg, agwedd cyson at werthuso opsiynau, cyd-drefnu a gwerthuso treialon sy'n hyrwyddo cynnwys y gweithlu, paratoi deunyddiau hyfforddi a nodiadau cyfarwyddyd perthynol. Yn hyn o beth, mae GTA Cymru wedi cytuno ar agwedd cyffredin.

Pwrcasu a Chytundebu

Yn cynnwys caffael strategol a rheolaidd, rhoi rhybuddion Cylchgrawn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, tendro, cytundebau, gorchwylion cyfreithiol a chyllid a chydymffurfio â Rheolau Sefydlog.

Comisiynu

Yn cynnwys paratoi deunyddiau diogelwch a thechnegol terfynol, hyfforddiant a dosbarthu.

Rheoli Cytundebau

Costau oes gyfan, yn cynnwys cynnal a chadw'r offer, rheoli a monitro cytundebau, cydberthynasau gyda chyflenwyr a datblygiad. Erys costau oes gyfan yn beth i'w ystyried trwy gydol y cylched caffael, ac ni ellir ei esgeuluso wedi'r cam gwerthuso opsiynau.

Datgomisiynu ac Amnewid

Yn cynnwys adolygu perfformiad offer neu gytundebau a'u gwaredu yn y pen draw.

Mae caffael cynaliadwy'n egwyddor allweddol i'w ymgorffori yn yr holl brosesau.

4.4 Defnyddir y term "ymchwil" yn aml i ddisgrifio'r broses o ymchwilio a dadansoddi'r opsiynau technegol gwahanol ar gyfer eitemau o offer a gyflawnir yn rhai o'r GTA. Nid yw'r ymchwil hwn yn ymchwil pur na chymhwysol oddi fewn i ddiffiniadau dirnadol presennol y termau hynny, ac ni chaiff ei ddefnyddio yn y synnwyr hwnnw yn y strategaeth hon. Mae "gwasanaethau technegol" yn well term ar gyfer y gweithgarwch a ymgymerir gan GTA i enwi, profi a derbyn offer, sef y term a ddefnyddir yma.

4.5 Nid yw ymchwil a datblygiad pur yn cael eu gweld fel rhan o'r swyddogaeth caffael oddi fewn i'r GTA, ond mae'n hanfodol fod y gwasanaeth yn cynnal cysylltiadau agos gyda'r diwydiant tân. Bydd y cyswllt agos hwn yn sicrhau effeithiolrwydd yr offer presennol a bod anghenion newidiol y gwasanaeth yn cael eu hadnabod a'u cyfathrebu'n glir i'r gwneuthurwyr i gyfarwyddo eu rhaglenni ymchwil.

4.6 Mae ‘cylched cyfan’ caffael yn cychwyn ar lefel uwch nag a ddisgrifir uchod, gyda’r amrywiol Gyfarwyddebau Ewropeaidd. O’r Cyfarwyddebau yma mae’r niferus a’r amrywiol Safonau Ewropeaidd harmoneiddiedig yn deillio. Bron yn ddieithriad, mae eitemau allweddol o offer ymateb brys, Offer Amddiffynnol Personol (PPE), Offer Amddiffynnol Anadlol (RPE) a cherbydau tân yn ofynnol i gydymffurfio ag un neu fwy o’r Cyfarwyddebau Ymagwedd Newydd Ewropeaidd, e.e. y Gyfarwyddeb PPE, y Gyfarwyddeb peiriannau, Offer a systemau Amddiffynnol a fwriedir i’w defnyddio mewn Atmosfferau a Allai Fod yn Ffrwydrol (y Gyfarwyddeb ATEX) cyn y gellir dod â nhw i’r farchnad hyd yn oed.
Mae’n seiliedig i raddau helaeth ar y fath Safonau Ewropeaidd y paratoir manylebion y defnyddiwr iddynt. Mae angen hefyd i eitemau fel cerbydau tân i gydymffurfio â deddfwriaeth y DU, megis Rheoliadau Adeiladwaith a Goleuadau Cerbydau Modur.

4.7 Yn yr arena hon mae llawer o ‘ymchwil a datblygiad’ yn cael ei gynnal a dyma sydd, yn ei hanfod, yn penderfynu ar agweddau pwysig o ddatblygu technegol a manylebion a gyfarwyddir, fel y maent gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Yma hefyd y mae diwydiant yn trafod gyda’i gwsmeriaid ar lefel uchel, a ble mae gweithgareddau ymchwil a datblygiad sy’n effeithio ar y dyfodol yn cael eu symud ymlaen.

4.8 Mae ymchwil a gynhelir gan “Firebuy” a gwledydd cyfagos yn debygol o gyfarwyddo’r broses, gyda chyfranogiad ble bod hynny’n gymwys.

PENNOD 5
Agwedd cydweithrediadol newydd

5.1 Dylai’r agwedd cydweithrediadol at gaffael a chydgrynhoi anghenion y mae’r strategaeth hon yn ceisio’u gweithredu arwain at welliannau sylweddol i’r modd mae prosesau caffael, sy’n benodol i dân ac nad sy’n benodol i dân, yn cael eu trin ac i gydberthynas y Gwasanaeth gyda chyflenwyr.

5.2 **Cyd-drefniant strategol caffael i gefnogi nodau ac amcanion allweddol y Gwasanaeth Tân ac Achub**
Mae’n bwysig bod y strategaeth caffael genedlaethol ar gyfer y GTA yn adlewyrchu nodau ac amcanion cyffredinol y Gwasanaeth. Mae’n hanfodol felly bod amcanion busnes a threfniadaethol craidd y gwasanaeth yn ffactor dylanwadol allweddol wrth wneud penderfyniadau caffael yn hytrach na’u

bod yn ôl-ystyriaeth. Yn ogystal, bydd y strategaeth yn darparu caffael effeithiol trwy sicrhau fod yr holl opsiynau caffael sydd ar gael yn cael eu hystyried, a bod yr ateb mwyaf priodol yn cael ei ganfod trwy werthuso opsiynau'n wrthrychol ac adolygiad Gateway, ble bod hynny'n briodol.

5.3 **Safoni manylebion cynnyrch**

Yn gyfochrog gyda'r ffrwd gwaith gwasanaethau technegol, yn enwedig ym meysydd PPE/RPE ac offer a cherbydau ymateb brys eraill, bydd agwedd gyffredin at fanylebion cerbydau tân ac eitemau allweddol o offer ymateb brys yn sicrhau y gellir cyflawni buddion o ran cost. Bydd y rhain yn deillio trwy wella trosoledd cyflenwyr, llai o ddyblygu costau datblygu'r cyflenwyr, rhediadau gwneuthur optimaidd, rhannu cronfeydd wrth gefn a pharatoi llawlyfrau/deunyddiau hyfforddi, nodiadau cyfarwyddyd ar asesiadau risg a data profion 'unwaith yn unig'.

Mae gwelliannau ymarferol yn cynnwys mwy o gydweithredadwyedd rhwng Awdurdodau, a mwy o allu i ymdrin â thrychinebau mawr. Mae'r ddibyniaeth ar fanylebion yn seiliedig ar gynnyrch yn galluogi i hyn i gael ei gyflawni heb yr angen i gyflenwyr i ail-offeru i gyflawni manyleb yn seiliedig ar gynnyrch rhagnodol, a bydd yn helpu i gadw cystadleuaeth yn y diwydiant.

5.4 **Cyd-drefnu gwasanaethau technegol GTA**

Mae angen i'r GTA i ddatblygu cronfa ddata genedlaethol o brosiectau gwasanaethau technegol, i sicrhau fod dynesiad cyd-drefnedig yn cael ei ddilyn, gan osgoi dyblygu'r ymdrech sy'n bodoli nawr ar raddfa fawr.

Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan asesiad risg a gwerthusiad protocol o ansawdd uchel. Mae'n hanfodol fod y gwaith hwn yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â'r HMFSI a'r Bwrdd Caffael Cenedlaethol. Bydd safoni deunyddiau technegol, gweithredol a hyfforddi, a chydymffurfiaeth berthnasol ag iechyd a diogelwch yn codi safonau hyfforddiant a diogelwch ac yn cefnogi gwaith croes-ffiniol mwy effeithiol. Bydd parodrwydd cynrychiolwyr o gyrff cynrychiolaidd y GTA, a benodir yn genedlaethol, a chynnwys y gweithlu yn y broses GT, yn enwedig gyda golwg ar faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch ac arloesedd, yn ganolog i gyflawni'r ffrwd gwaith hwn yn effeithiol.

5.5 **Datblygu'r farchnad i sicrhau fod cyflenwyr yn darparu'r offer a'r gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y GTA**

Mae'n rhaid i'r GTA i gyd-drefnu ei anghenion ar sail genedlaethol i sicrhau, trwy gydgrynhoi gofynion, ei fod yn uchafu ei bŵer pwrcasu i ddylanwadu ar ddatblygiad y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. Bydd mwy o fewnbwn strategol i'r gadwyn gyflenwi ac ar lefel Safonau Ewropeaidd a Rhyngwladol, er enghraifft, yn sicrhau fod cyflenwyr yn datblygu'r teclynnau, yr offer a'r PPE sydd eu hangen i gynorthwyo gweithlu mwy amrywiol. Er mwyn sicrhau cynaladwyedd a diogelwch eitemau allweddol a gyflenwir, mae'n rhaid ystyried materion yn ymwneud â dibyniaeth strategol a chyfraith cystadleuaeth wrth wneud penderfyniadau

caffael. Ble ei fod er lles gorau'r Gwasanaeth Tân ac Achub, dylai geisio sefydlu partneriaethau strategol tymor hir gyda sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat, a chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau allweddol.

5.6 **Rheoli'r sylfaen gyflenwi'n weithgar**

Ni fwriedir y defnydd o gytundebau fframwaith, ble mae Awdurdodau'n medru rhoi pen ar gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, i ganolbwyntio cyfran y farchnad yn nwylo un cyflenwr. Byddai gwneud hynny'n beth gwael i gystadleuaeth a buasai'n dinoethi'r gwasanaeth i radd llawer yn uwch o ddibyniaeth. Gellir strwythuro'r cytundebau yma i drosoli enillion effeithlonrwydd trwy gydgrynhoi'r galw a sicrhau fod cystadleuaeth yn cael ei chynnal.

5.7 **Enillion effeithlonrwydd a gwella ansawdd**

Disgwylir i arbedion y gellid eu troi'n arian parod ac arbedion na ellid eu troi'n arian parod i ddeillio o gydgrynhoi'r galw a dileu dyblygu prosesau yn y GTA yng Nghymru. Bydd enillion effeithlonrwydd a wneir gan Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu cadw'n lleol, i'w hail-fuddsoddi yng ngwasanaethau'r rheng flaen. Dylai'r defnydd cynyddol o staff caffael sy'n gymwys yn broffesiynol ac sy'n brofiadol arwain at welliannau yn safonau cerbydau, offer a gwasanaethau sydd tu hwnt i gyrraedd llawer o awdurdodau ar hyn o bryd. Bydd Gwerth Cymru yn cynorthwyo yn hyn o beth, trwy fynediad i'w rhaglen effeithlonrwydd.

5.8 Hefyd, dylai'r strategaeth genedlaethol gynorthwyo wrth gyflawni nodau ac amcanion allweddol eraill y Gwasanaeth Tân ac Achub, trwy gyd-drefnu arbenigedd, sgiliau a gwybodaeth y rhai hynny sydd yn y gwasanaeth mewn meysydd megis:

- Datblygu'r swyddogaeth caffael broffesiynol
- Partneru strategol
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Caffael cynaliadwy
- Dosbarthu/ logisteg
- Modelau cyflawni gwasanaeth
- e-gaffael/cardiau caffael
- Asesiadau risg

Bydd cyflawni'r meysydd yma'n llwyddiannus yn cynorthwyo gyda'r nod o wneud ein cymunedau'n fwy diogel.

PENNOD 6

Y Ffit Orau – Cenedlaethol/Rhanbarthol

6.1 Mae angen i gaffael yn y GTA i gael ei gyflawni ar y lefel sydd fwyaf tebygol o gyflawni'r effeithlonrwydd mwyaf ac uchafu pŵer pwrcasu trwy gydgrynhoi'r galw. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gydymffurfio â rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd (UE), cynnal cystadleuaeth yn y farchnad a'r ffaith nad swyddogaeth y GTA yw cynnal bodolaeth ymgymeriadau masnachol nad sy'n ymarferol.

6.2 Er mwyn canfod y caffaeliadau hynny sy'n briodol ar gyfer pob lefel o gydgrynhoi, bydd ymarfer Gateway yn cael ei gynnal yn dilyn ymarfer dadansoddi gwariant cyflenwr cenedlaethol. Bydd hyn yn cyfarwyddo'r strategaeth. Mae'r materion hynny sy'n ymwneud â chydweithredu yn gydradd gymwys i'r adran hon, mewn perthynas â chytundebau rhanbarthol neu genedlaethol.

6.3 Yn gyffredinol, ystyrir y gellir elwa fwyaf trwy gaffael ar lefel ranbarthol, Cymru neu genedlaethol (DU) ac i fanyleb gyffredin sy'n seiliedig ar allbwn ar gyfer yr eitemau hynny sy'n **wasanaeth-benodol** h.y. ble nad oes consortiwm neu grŵp prynu ar gael fel arall. Cynigir bod mwyafrif y materion eraill sy'n ymwneud â chaffael yn cael eu hymdrin ar lefel ranbarthol neu leol, i safonau neu fanylebion cenedlaethol, ond bod y fframwaith yn dal i gael ei ddefnyddio ble bod hynny'n bosib.

6.4 Mae'r trefniadau a'r strwythurau ar gyfer cyd-drefnu caffael oddi fewn i ranbarth Cymru yn fater i Grŵp Caffael CFOA Cymru mewn cysylltiad â Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gwerth Cymru. Bydd hyn yn golygu strwythurau rheoli gwahanol a safbwynt gwahanol ar y defnydd o FiReBuy Ltd, ble mae cylchlythyr y llywodraeth yn caniatáu i feirniadaeth am Werth am Arian i gael ei wneud. Beth bynnag y bo'r strwythur, rôl Grŵp Caffael CFOA Cymru mewn perthynas â chaffael yw:

- cyfrannu tuag at gynlluniau caffael cenedlaethol trwy ymgymryd â gweithgareddau i safonau cenedlaethol
- canfod, dosbarthu a hybu canllawiau arfer da caffael ar gyfer y materion hynny sy'n disgyn oddi fewn i'r cylch gwaith caffael rhanbarthol
- sicrhau fod prosiectau caffael yn cael eu hymgymryd oddi fewn i fethodoleg rheoli prosiect cydnabyddedig, a bod y prosiect yn cael ei reoli gan ddefnyddio'r fethodoleg PRINCE2

- archwilio trefniadau rhanbarthol a chroes-ffiniol ar gyfer caffael, storio, dosbarthu a chynnal a chadw nwyddau a gwasanaethau gwasanaeth-benodol, yn unol ag arfer da

- sicrhau fod penderfyniadau caffael yn unol â strategaeth GTA Cymru a'u bod yn cefnogi neu'n mwyhau amcanion polisi gwasanaeth allweddol eraill

- sicrhau fod gwerthusiadau a phrosiectau ymchwil yn cael eu cwblhau'n unol â Strategaeth GTA Cymru, a'u bod yn cael eu cyflwyno i'w cynnwys yn y gronfa ddata genedlaethol

- sefydlu a chynnal cysylltiadau strategol gyda Gwerth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid sector cyhoeddus a phreifat allweddol eraill yn yr ardal

- sicrhau fod nifer digonol o staff caffael cymwys ar gael i wasanaethu anghenion yr ardal, a bod hyfforddiant ar gael i sicrhau fod staff yn cael eu diweddaru'n gyson.

PENNOD 7
Amcanion Caffael

Crynodeb o'r Amcanion Caffael

Amcanion Strategaeth Caffael Cymru (WPS) ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yw'r rhain. Mae'r drafodaeth sy'n dilyn yn amlinellu ble yr ydym ni nawr mewn perthynas â phob un o'r amcanion, pa gamau sydd angen eu cymryd a chan bwy, a'r amserlen.

WFRSP1 Caffael yn genedlaethol
I sicrhau fod agwedd cydweithrediadol yn cael ei gymryd ar sail genedlaethol/rhanbarthol at gaffael eitemau pwysig o wariant gwasanaeth-benodol megis cerbydau, offer a gwasanaethau allweddol.

WFRSP2 Caffael i Gymru
I sicrhau fod agwedd strwythuredig a chyd-drefnedig yn cael ei gymryd at gaffael oddi fewn i Gymru.

WFRSP3 Hyfforddiant a datblygiad
I sicrhau agwedd cyson at hyfforddi a datblygu staff sydd â rôl gaffael ar draws y gwasanaeth tân, yn unol ag arfer da, p'un ai gan gyrff proffesiynol megis C.I.P.S., S.O.P.O., Caffael GC neu'r A.P.P.F.S. a grëwyd o'r newydd. Rhoi mynediad i offer Caffael eraill e.e. Bluelight, PrynwchiGymru, Catalist, IDeA ayb.

WFRSP4 Systemau caffael a pherfformiad
I weithio ar y cyd gyda'r IDeA, Swyddfa Archwilio Cymru a Grŵp Gwella Perfformiad Caffael Llywodraeth Leol Cymru, i ddatblygu DPA (KPI) ar gyfer GTAC, trwy baratoi gwybodaeth am reoli i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau a gwella perfformiad caffael.

Ni ellir gwneud penderfyniadau gwybodus am gaffael heb fynediad i wybodaeth o ansawdd da. Mae angen datblygu systemau adroddi am reoli a dangosyddion perfformiad, fel y gellir monitro cynnydd a pherfformiad pob Gwasanaeth Tân.

Mae angen i'r Rheolwyr Caffael a'r Rheolwyr Cyllid i weithio'n agos gyda'i gilydd, i baratoi gwybodaeth o ansawdd sydd ar gael yn hawdd ar systemau ledjer. Mae angen cytuno ar ddangosyddion perfformiad ac mae angen rhoi ystyriaeth i fuddsoddi mewn technoleg newydd sy'n ofynnol o bosib, yn dibynnu ar y systemau sy'n bodoli.

Hefyd, mae angen cronfa ddata gyffredin ar gyfer holl gytundebau'r GTA.

WFRSP5 Cynaladwyedd ac amrywiaeth
I sicrhau fod gweithgarwch caffael y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gynhwysiad cymdeithasol, a'i fod yn mwyhau ac yn cynnwys busnesau bach a chanolig eu maint (SME) yn weithgar wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut fedrant fod yn gysylltiedig wrth ddarparu gwasanaeth. Trwy gofrestru gyda'r siarter "Agor Drysau" mae pob GTA yn gwneud yr addewid hwn.

Yn ogystal, mae angen i'r Gwasanaeth i chwarae ei ran, trwy gaffael yn ofalus, wrth sicrhau gwelliannau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a naturiol, a lleihau unrhyw effaith anffafriol y gallai gael ar y rhain.

Gellir gwneud hyn trwy fabwysiadu Offer Caffael Cynaliadwy Gwerth Cymru (templedi SPAF a SRA) i asesu'r sefyllfa bresennol a pharatoi cynllun gweithredu i gyflawni'r targedau dymunol.

WFRSP6 Rheoli risg
I sicrhau fod risgiau prosiect, masnachol ac iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried ym mhob caffaeliad allweddol, bod cynlluniau wrth gefn addas mewn lle ar gyfer cynnyrch allweddol, a bod gan bawb sydd mewn rolau rheoli prosiect sgiliau a phrofiad priodol.

WFRSP7 Cost ac arbedion effeithlonrwydd
I sicrhau fod y trefniadau caffael mor effeithiol ag sy'n bosib, a bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cyflawni arbedion blwyddyn ar ôl blwyddyn, yn deillio o weithgarwch caffael trwy welliannau o ran costau ac effeithlonrwydd.

WFRSP8 Rheoli cytundebau a pherfformiad
I sicrhau fod cytundebau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod perfformiad cytundebol yn gwella.

WFRSP9 Gwasanaethau technegol
I fabwysiadu agwedd genedlaethol at arloesedd a datblygu trwy restru, profi a derbyn gweithgareddau trwy ddatblygu proses genedlaethol a gefnogir gan gronfa ddata genedlaethol a gwaith sy'n cael ei flaenoriaethu'n genedlaethol.

WFRSP10 e-Gaffael
I sicrhau fod y GTA yn medru diwallu targedau e-lywodraeth mewn perthynas â chaffael, a bod agwedd cyson yn cael ei gymryd ar sail genedlaethol/rhanbarthol, gyda golwg ar weithredu e-gaffael o fewn y Gwasanaeth.

Caffael yn Genedlaethol

AMCAN WFRSP1

Mae'n bosib i Wasanaethau Tân ac Achub (GTA) i gyflawni effeithlonrwydd sylweddol trwy gydgrynhoi eu pŵer pwrcasu, eu sgiliau a'u hadnoddau i gaffael yr eitemau hynny sy'n wasanaeth-benodol.

Mae cydweithredu ar sail genedlaethol yn medru helpu i godi safonau offer ar gyfer yr holl ddiffoddwyr tân, galluogi Awdurdodau i rannu cronfeydd wrth gefn, lleihau dyblygu ym maes gwasanaethau technegol ac arbed ar baratoi deunydd hyfforddi.

Amcan Allweddol:

I sicrhau fod gwerth am arian yn cael ei arddangos, cymerir agwedd gydweithrediadol ar sail genedlaethol at gaffael eitemau mawr o wariant gwasanaeth-benodol megis cerbydau, offer a gwasanaethau allweddol.

BLE'R YDYM NI NAWR

Yng Nghymru mae pob Awdurdod eisoes yn cydweithredu ar gaffael gwisg gorfforaethol (nid PPE) a pheiriannau ar y cyd, ond hyd yn oed ymhlith y rhain mae amrywiadau mawr yn medru bod yn y nwyddau sy'n cael eu caffael,

oherwydd y bu'n anodd cytuno ar safonau a manylebion cyffredin. Nod y Prosiect Gwisg Integredig (ICP) yw sicrhau manyleb genedlaethol o ansawdd uchel a hunaniaeth ar gyfer PPE a dillad nad sy'n PPE ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA). Disgwylir i gyflenwadau sy'n unol â'r cytundeb terfynol i ddechrau llifo yn ystod 2008.

Ymgymerwyd â phrosiect cydweithrediadol rhanbarthol ar gyfer Offer Amddiffynnol Anadlol (RPE) yn Nwyrain Lloegr, mae'r gwaith wedi cychwyn ar brosiect RPE cenedlaethol, ac mae'n arfaethedig y bydd yn cynnwys y sbectrwm cyflawn offer amddiffyniad anadlol o fasgiau llwch, trwy Offer Amddiffynnol Anadlol, i siwtiau amddiffyniad cemegol. Gellir cynnwys cywasgyddion a thelemetreg yn y prosiect hwn, o bosib.

Mae'r gofynion gwydnwch cenedlaethol wedi gyrru peth caffael cenedlaethol i'r GTA. Mae CLG, trwy ei raglen Dimensiwn Newydd, wedi caffael offer i fanylebion cenedlaethol ac mae wedi cyflawni hyfforddiant cysylltiedig i safonau cenedlaethol. Mae LlCC wedi ariannu'r cynllun hwn yng Nghymru.

MATERION ALLWEDDOL

Mae Firebuy wedi cael ei ariannu nes 2008/09 ac mae trafodaethau'n parhau i ganfod mecanwaith noddi yn y dyfodol, yn cynnwys adennill costau.

Mae rhai cytundebau hir dymor mewn lle, a fydd yn dueddol o wneud atebion a gytunwyd yn genedlaethol yn broblemaidd yn y tymor byr. Bydd Awdurdodau Cymru'n asesu p'un ai i ymuno â threfniadau'r DU ar gyfer offer penodol, fel bod eu hymrwymiadau presennol yn caniatáu.

Ar gyfer cytundebau penodol, dylai mwy o safoni arwain at allu'n uwch ar gyfer rhyngweithredadwyedd, cynyddu pwer pwrcasu Awdurdodau a lleihau sylfaen costau cyflenwyr trwy gyfrwng gostyngiad mewn offeru pwrpasol a rhediadau cynhyrchu byr. Hefyd, bydd yn gymorth i sicrhau fod yr holl Awdurdodau'n rhoi ystyriaeth briodol i'r rhwystrau mynediad i fwy o staff sy'n fenywod a lleiafrifoedd ethnig i rôl y diffoddwr tân y mae'r cerbydau tân a'r offer ymateb brys presennol yn medru eu hachosi.

Mae gan Awdurdodau unigol ddyletswydd i sicrhau fod cytundebau'n cynrychioli gwerth gorau ac nid yw'r ddyletswydd gwerth gorau yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau i ganolbwyntio'n unig ar arian parod, ond ar wir gost economaidd eu penderfyniadau, gan ddwyn i ystyriaeth bris y pwrcas, cynnal a chadw, gwydnwch, ansawdd a diogelwch eu staff. Dylai'r holl brosiectau cenedlaethol gael eu hategu gan achos fusnes cadarn a gwerthusiad o opsiynau.

Mae angen canolbwyntio'r ymdrech, ar lefel cenedlaethol a GTA, i gefnogi nodau'r strategaeth hon. Bydd angen i Awdurdodau i gronni eu hadnoddau ac i fanteisio ar gryfderau perthynol ei gilydd.

Mae angen paratoi Cynllun Busnes blynyddol, i ganfod y gweithredoedd blynyddol sy'n ofynnol i gynorthwyo wrth gyflawni'r strategaeth caffael; bydd yn ddibynnol ar Grŵp Caffael CFOA Cymru a'r GTA unigol sy'n cymryd camau i ganfod a chyfleu eu gofynion.

Mae FiReBuy Ltd wedi:

- Sefydlu cysylltiadau ffurfiol rheolaidd gyda diwydiannau allweddol ac wedi cychwyn ar ddyddiau briffio diwydiant rheolaidd.

- Cydweithredu gyda'r RMB'au yn Lloegr wrth baratoi'r Cynllun Busnes.

- Ffurfio cynghrair rhwng FiReBuy Ltd a sefydliadau eraill sy'n pwrcasu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer diffodd tanau ac atal tanau (e.e. y Weinyddiaeth Amddiffyn).

- Gweithio gyda'r RMB'au yn Lloegr i sicrhau cyd-drefniant caffael yn genedlaethol.

- Gweithio gyda GTA a'r RMB'au yn Lloegr i sefydlu manylebion cenedlaethol ar gyfer eitemau allweddol o offer gweithredol h.y. ysgolion, offer torri, ewyn a phibellau.

- Gosod y Prosiect Gwisg Integredig (cytundeb cenedlaethol ar gyfer gwisg PPE a gwisg nad sy'n PPE).

- Gosod trefniant fframwaith cenedlaethol ar gyfer peiriannau pwmpio, i safonau BS:EN-1846.

- Gosod trefniant fframwaith cenedlaethol ar gyfer cerbydau ysgafn a cherbydau eraill y Gwasanaeth Tân ac Achub.

- Datblygu manyleb amlinellol ar gyfer gwasanaeth cerbydau tân a reolir yn llwyr.

- Sefydlu cytundebau cenedlaethol ar gyfer eitemau allweddol o offer gweithredol h.y. ysgolion, offer torri, ewyn, pibellau.

- Gweithio gyda'r CFOA i osod cytundeb fframwaith cenedlaethol ar gyfer Offer Amddiffynnol Anadlol (RPE).

- Gosod trefniant fframwaith cenedlaethol ar gyfer amryw o beiriannau awyrol a pheiriannau arbenigol eraill.

Bydd FiReBuy Ltd yn:

- Gweithio gyda GTA i safoni dogfennaeth cytundebau.

- Ymchwilio i gyflwyno briff dylunio safonol yn seiliedig ar allbwn ar gyfer gorsafoedd tân.

- Ymchwilio i opsiynau'r gwasanaeth i leihau'r rhwystrau mynediad i farchnad y gwasanaeth tân, fel sy'n briodol.

Bydd GTA unigol yn:

- Ystyried FiRebuy Ltd a fframweithiau rhanbarthol neu genedlaethol eraill, ble bod cytundebau'n dangos Gwerth am Arian, sy'n defnyddio'r dynesiad cost oes gyfan, gan ddwyn i ystyriaeth costau tendro, graddfeydd amser a rheolaeth ayb.

- Cefnogi'r Bwrdd Caffael Cenedlaethol trwy gyfrwng Grŵp Caffael CFOA Cymru.

Caffael i Gymru

AMCAN WFRSP2

Ar gyfer gweithgarwch caffael GTA nad sy'n benthyg ei hun i gael ei ymgymryd ar lefel DU, a bod meysydd gwaith yn fwy priodol i'w trefnu a'u rheoli ar lefel rhanbarthol neu leol, bydd Cymru'n cychwyn ar drafodaethau trwy gyfrwng Grŵp Caffael CFOA Cymru. Sefydlwyd y Grŵp hwn ym mis Tachwedd 2005, ac mae'n gyfrifol am godi safonau caffael, ac am leihau dyblygu a rhesymoli'r ymdrech reoli.

Amcan Allweddol:

I sicrhau fod agwedd strwythuredig a chyd-drefnedig yn cael ei gymryd at gaffael.

BLE YR YDYM NI NAWR

Eisoes mae yna radd o gydweithredu ar lefel GTA Cymru gyfan, a ddangoswyd trwy'r cytundeb gwisg corfforaethol a'r cydweithredu o ran peiriannau. Yn ogystal, mae nifer o gysylltiadau eraill yn lleol gyda sefydliadau eraill, ac mae GTA yn defnyddio Gwerth Cymru a fframweithiau cytundeb rhanbarthol a chenedlaethol eraill. Mae'r "fforwm technegol" o dan y Grŵp Gwaith wedi llunio agwedd gyffredin at werthuso technegol, a weithredir ar draws Gwasanaeth T ac A Cymru. Yn ogystal, mae pob un ohonynt wedi ymgofrestru ar Gronfa Ddata Blue Light. Mae'r CFOA yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i ystyried materion yn ymwneud â chaffael, ac mae Grŵp Caffael CFOA Cymru yn effro i leihau'r llwyth

gwaith a gwneud defnydd llawn o'r gwaith a wnaed mewn mannau eraill i hybu mwy o gydweithredu a rhannu'r faich.

Hyd yn oed oddi fewn i Awdurdodau yng Nghymru, mae tipyn o amrywiad i'w gael o ran arbenigedd y staff sy'n ymwneud â chaffael gwasanaeth-benodol.

MATERION ALLWEDDOL

Mae angen i Grŵp Caffael CFOA Cymru i gymryd rôl weithgar wrth archwilio prosesau caffael a monitro canlyniadau ar draws yr ardal, a bydd arno angen mynediad i gyngor proffesiynol ar gaffael. Dylai ganfod yr arbenigedd sy'n bodoli, ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol a chytuno sut fydd GTA cyfansoddol yn rheoli unrhyw fylchau mewn sgiliau a gaiff eu canfod, er lles pawb yn yr ardal. Wrth wneud hyn, dylid rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd o ymrestru cymorth Gwerth Cymru.

Mae angen rhoi blaenoriaeth i gytundebau rhanbarthol sy'n medru cyflawni'r enillion mwyaf gyflymaf.

TARGEDAU

Bydd Grŵp Caffael CFOA Cymru yn:

Canfod anghenion caffael sy'n deillio o Gynlluniau Lleihau Risg (RRP) cyhoeddedig yr Awdurdodau cyfansoddol

Adolygu cynnydd yn erbyn cerrig milltir yn Strategaeth Caffael Cymru

Penderfynu ar drefniadau trefniadaethol ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth caffael

Paratoi cynllun caffael 3 blynedd dreigl, gan osod targedau ar gyfer pob blwyddyn, yn cynnwys amserlen i adolygu a gosod cytundebau ar sail gydweithrediadol, wedi rhoi sylw priodol i'r targedau yn Strategaeth Caffael Cymru a'r cytundebau a enillwyd yn genedlaethol

Sefydlu lefelau o wariant ar gategorïau caffael oddi wrth yr ATA cyfansoddol.

Adolygu'r holl drefniadau storio, logisteg a dosbarthu

Bydd ATA unigol yn:

Sefydlu lefelau o wariant ar gategorïau caffael ac yn eu hadrodd wrth Grŵp Caffael CFOA Cymru

Ystyried yr anghenion caffael sy'n deillio o'u RRP a'u hadrodd wrth Grŵp Caffael CFOA Cymru

Hyfforddiant a Datblygiad

AMCAN WFRSP3

Er mwyn i'r GTA i weithredu strategaeth caffael yn llwyddiannus, mae'n galw ar bobl i gael y sgiliau priodol i'w galluogi i roi mewnbwn proffesiynol i mewn i brosesau caffael. Mae'n rhaid darparu hyfforddiant a datblygiad ar lefel sy'n gymesur ag amledd a chymhlethdod y gweithgarwch caffael a ymgymerir gan unigolion. Felly, mae anghenion hyfforddiant yn medru amrywio o gymhwyster caffael ffurfiol i wybodaeth weithiol o dechnegau caffael allweddol.

Amcan Allweddol:

I sicrhau agwedd cyson at hyfforddi a datblygu staff sydd â rôl caffael ar draws y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn unol ag arfer da, p'un ai gan gyrff proffesiynol megis y C.I.P.S., S.O.P.O., Caffael GC neu A.P.P.F.S a grewyd o'r newydd ayb.

BLE YR YDYM NI NAWR

Mae gwybodaeth, sgiliau a phrofiad staff sy'n ymwneud â chaffael yn y GTA yn amrywio, a does dim agwedd cyson na strwythuredig at hyfforddiant caffael. Yn y DU mae gan y Canolfannau Rhagoriaeth rôl allweddol wrth roi cyngor cyffredinol ar hyfforddiant a datblygiad caffael. Tra nad oes unrhyw Ganolfannau Rhagoriaeth ffurfiol yng Nghymru, ystyrir bod fforwm Caffael Gwerth Cymru yn datblygu ac yn hyrwyddo arferion caffael cadarn. Yn ogystal, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi rhai Awdurdodau Unedol fel enghreifftiau o arfer da.

MATERION ALLWEDDOL

Yn aml, nid oes gan GTA unigol ddigon o weithgarwch caffael i warantu cyflogi staff caffael sy'n gymwys yn broffesiynol. Tra ar gyfer rhai cytundebau bydd FiReBuy Ltd yn sicrhau fod arbenigedd priodol ar gael ar lefel y DU, bydd Cymru'n datblygu atebion staffio ar lefel leol, i gefnogi Gwasanaethau T ac A cyfansoddol.

Mae angen i'r staff sy'n ymwneud â chaffael i dderbyn y sgiliau priodol i'w galluogi i gyfranogi wrth gyflawni amcanion caffael yn llwyddiannus, ac mae arfer da yn ei gwneud hi'n ofynnol i Aelodau etholedig i dderbyn hyfforddiant priodol hefyd. Mae angen i'r GTA yng Nghymru i ystyried gweithredu rhaglenni hyfforddi a datblygu. Gellir gwneud hyn mewn cydweithrediad â Gwerth Cymru, yr Asiantaeth Gwella a Datblygu (IdeA), 4P's neu un o'r Awdurdodau arfer da yn sector cyhoeddus Cymru. Mae fforwm a rhwydwaith GC eisoes yn rhoi'r

amlygiad hwn trwy ei bartner hyfforddi PMMS, gyda'r IDeA yn darparu elfennau arbenigol megis adolygiad o brosiectau mawr "Gateway".

I gydnabod y ffaith nad oedd yna gorff cyfunol flaenu a rhannu arfer caffael proffesiynol yn y GTA, sefydlwyd yr A.P.P.F.S. Mae nodau'r Gymdeithas fel a ganlyn:

i) I hyrwyddo caffael fel swyddogaeth broffesiynol oddi fewn i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

ii) I ddarparu fforwm i drafod materion yn ymwneud â chaffael o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub.

iii) I ganfod rolau a chyfrifoldebau caffael staff a rhoi cyngor ar hyfforddiant a datblygiad.

iv) I drafod, fel sy'n briodol, gyda chyrff caffael, e.e. CIPS, Cymdeithas y Swyddogion Caffael (SOPO), IDeA, ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â chaffael.

v) I roi cyfarwyddyd ar faterion sy'n ymwneud â chaffael, fel sy'n briodol.

vi) I sicrhau fod Cymdeithas Ymarferwyr Caffael y GTA yn chwarae rôl weithgar o fewn y CFOA.

vii) I ddarparu rhagoriaeth o ran caffael a meysydd perthynol e.e. logisteg.

TARGEDAU

Bydd GTAC yn:

- Datblygu'r Swyddogaeth Caffael Broffesiynol.
- Sicrhau fod niferoedd digonol o staff cymwys addas ar gael.
- Sicrhau agwedd cyson at hyfforddi a datblygu staff sydd â rôl gaffael ar draws y GT ac A.
- Trefnu i archwiliad o hyfforddiant a sgiliau staff caffael, staff eraill sydd â dyletswyddau caffael ac Aelodau etholedig i gael ei gynnal.
- Trefnu i ddatblygu hyfforddiant caffael priodol, mewn cydweithrediad â GC IDeA, CIPS, SOPO a'r APPFS.
- Trefnu i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant a Datblygiad Caffael.

Mae FiReBuy Ltd ar y cyd gyda'r CFOA wedi sefydlu Cymdeithas Ymarferwyr Caffael ar gyfer y GTA (APPFS).

Bydd GTA unigol yn:

- Cydweithredu i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant a Datblygiad Caffael.
- Cydweithredu i ddatblygu a darparu hyfforddiant priodol.
- Cydweithredu i gwblhau archwiliad o hyfforddiant a sgiliau.
- Gweithio gyda'r CFOA i ddatblygu a chefnogi'r APPFS

Systemau Caffael a Pherfformiad

AMCAN WFRSP4

Ni ellir gwneud penderfyniadau caffael gwybodus heb fynediad i wybodaeth o ansawdd da. Mae'n hanfodol bod dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu paratoi fel sy'n briodol, i fonitro cynnydd ac i wella perfformiad. Yn ogystal, mae angen cronfa ddata gyffredin ar gyfer cytundebau GTA, a fyddai'n galluogi ATA i gael mynediad at gytundebau cydweithrediadol sy'n bodoli a allai fod â'r potensial i gyflawni arbedion. Gellir datrys hyn trwy roi mynediad i ATA i Gronfa Ddata Caffael Blue Light (BLPD). Mae'n galluogi ATA, ynghyd â Gwasanaethau Brys eraill, i storio eu manylion am gytundebau lleol, rhanbarthol a chydweithrediadol, yn ogystal â chaniatáu mynediad i eraill.

Amcan Allweddol:

I weithio ar y cyd gyda Grŵp Gwella Perfformiad Caffael Llywodraeth Leol Cymru (WLGPPIG), IDeA a Swyddfa Archwilio Cymru i ddatblygu DPA ar gyfer GTA, sy'n paratoi gwybodaeth am reoli i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ac i wella perfformiad caffael.

Ni ellir gwneud penderfyniadau caffael gwybodus heb fynediad i wybodaeth o ansawdd da. Mae angen datblygu systemau adrodd am reolaeth a dangosyddion perfformiad, fel y gellir monitro cynnydd a pherfformiad pob Gwasanaeth Tân.

Mae angen i Reolwyr Caffael a Rheolwyr Cyllid i weithio'n agos gyda'i gilydd i baratoi gwybodaeth o ansawdd, sydd eisoes ar gael ar y systemau ledjer. Mae

angen cytuno ar ddangosyddion perfformiad ac mae angen rhoi ystyriaeth i fuddsoddi mewn technoleg newydd sydd ei angen, o bosib, gan ddibynnu ar y systemau presennol.

Yn ogystal, mae angen cronfa ddata gyffredin ar gyfer holl gytundebau'r GTA.

BLE YR YDYM NI NAWR

Ar hyn o bryd, nifer cyfyngedig o ddangosyddion perfformiad allweddol generig (DPA) yn unig sy'n bodoli yn arbennig ar gyfer Cymru, wedi iddynt gael eu datblygu gan y W.L.G.P.P.I.G. Dim ond ychydig o'r cytundebau a roddwyd gan y GTA sy'n cynnwys y gofyniad am wybodaeth a fuasai'n galluogi GTA i gwblhau DPA yn fwy effeithiol.

Ar hyn o bryd, mae canllawiau'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i GTA mewn perthynas â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI), a disgwylir i 20% o'r targedau effeithlonrwydd i gael ei gyflawni gan arbedion caffael.

Buasai arfer da yn galw am i weithrediad rhyw fath o gynllunio rheoli prosiect i gael ei fabwysiadu gan GTA ar gyfer prosiectau mawr.

Does dim cofrestr o gytundebau Cenedlaethol / Rhanbarthol, felly nid yw gwybodaeth am gytundebau GTA ar gael yn eang na'n hawdd.

Does dim agwedd cyson yn bodoli ar hyn o bryd at gasglu gwybodaeth am reoli/caffael yn genedlaethol.

MATERION ALLWEDDOL

Mae angen i GTAC i wella'r wybodaeth sydd ar gael ar ei gyfer, fel ei fod yn medru gwneud gwell penderfyniadau am gaffael a'i fod yn medru mesur gwelliannau yn ei berfformiad. Gellir gwneud hyn trwy ddatblygu a chynnwys DPA ym mhob cytundeb sy'n seiliedig ar gyflenwi neu wasanaeth, boed y cytundeb yn genedlaethol neu'n rhanbarthol, a thrwy gyflwyno modelau i fainc fesur perfformiad. Yn ogystal, dylai'r gwasanaeth roi ystyriaeth ddifrifol i gyflwyno proses adolygu Gateway ar gyfer prosiectau mawr.

Mae yna botensial i gyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol a gwelliannau o ran ansawdd, trwy gyflwyno amodau a thelerau safonol ar gyfer cytundebau cyffredin, yn ogystal ag agwedd cyffredin at dendro a'r lefelau o awdurdod dirprwyedig.

Mae angen cronfa ddata gyffredin ar gyfer cytundebau GTA, a fuasai'n caniatáu i ATA i gael mynediad i'r cytundebau cydweithrediadau sy'n bodoli, a allai fod â'r potensial i gyflawni arbedion. Gellir datrys hyn trwy gael mynediad i Gronfa Ddata Caffael Blue Light (BLPD). Mae'n galluogi GTA, ynghyd â Gwasanaethau

Brys eraill, i storio eu manylion am gytundebau lleol, rhanbarthol a chydweithrediadau, yn ogystal â rhoi mynediad i eraill.

TARGEDAU

Bydd GTAC yn:

- Mainc fesur yn erbyn gweithrediadau caffael y sector cyhoeddus.
- Gwneud defnydd llawn o Gwerth Cymru a chyfranogi yn yr amrywiol brosiectau a ymgymerir h.y. clwb mainc fesur, caffael cynaliadwy, e-gaffael, caffael fflyd ayb.
- Sicrhau fod DPA yn nodwedd o'r holl gytundebau sy'n seiliedig ar wasanaeth perthnasol.
- Ystyried dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer eu gweithrediadau pwrcasu, storio a logistaidd.
- Ystyried DPA i fesur y swyddogaeth Caffael yng GTA Cymru.
- Gweithredu rhyw fath o gynllun i reoli prosiect oddi fewn i bob GTA yng Nghymru, i gynnwys mewnbwn gan Swyddogion Caffael.
- Ymgofrestru ar Gronfa Ddata Caffael Bluelight (BLPD).
- Defnyddio BLPD a Gwefan "PrynwchiGymru" Genedlaethol Gwerth Cymru, a fydd yn galluogi defnyddwyr i hysbysebu cytundebau ac i ddod o hyd i gyflenwyr.
- Cymell cyflenwyr allweddol i fabwysiadu systemau ansawdd yn eu busnes, trwy fabwysiadu ISO9000 neu ryw beth cyfatebol. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i amgylchiadau unigol Busnesau Bach a Chanolig eu Maint (SME).
- Defnyddio modelau effeithiol i fainc fesur cynnydd ym maes Caffael.

Cynaladwyedd ac Amrywiaeth

AMCAN WFRSP5

Mae angen i'r Gwasanaeth Tân ac Achub i sicrhau ei fod yn chwarae rhan ragweithiol wrth sicrhau fod yr offer a'r wisg sy'n cael eu caffael ar gyfer staff GTA yn diwallu anghenion gweithlu amrywiol, ac nad yw'n rhwystro mynediad i ddarpar weithwyr. Mae'n rhaid iddo ymwneud yn weithgar â busnesau bach a chanolig eu maint (SME) wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut fedrant ymwneud

â chyflenwi'r gwasanaeth. Yn ogystal, mae angen i'r gwasanaeth i chwarae ei ran trwy gaffael yn ofalus wrth sicrhau gwelliannau i'r amgylchedd a lleihau unrhyw effaith niweidiol y mae ei weithgareddau'n eu cael.

Amcan Allweddol:

I sicrhau fod gweithgareddau caffael y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynhwysiad cymdeithasol ac amrywiaeth, a'i fod yn lleihau unrhyw effaith newidiol y gallai ei gael ar yr amgylchedd. Dylai fynd ati'n weithgar i gynnwys busnesau bach a chanolig eu maint (SME) wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut fedran nhw ymwneud â chyflenwi gwasanaeth.

Yn ogystal, mae angen i'r Gwasanaeth i chwarae ei ran, trwy gaffael yn ofalus, wrth sicrhau gwelliannau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a naturiol, a lleihau unrhyw effaith niweidiol y gallai ei gael ar y rhain.

BLE YR YDYM NI NAWR

Mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub dargedau i wella recriwtio menywod a lleiafrifoedd ethnig, fel ei fod yn adlewyrchu'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu'n well, a'i fod yn medru eu helpu'n fwy effeithiol. Mae angen datblygu polisïau caffael GTA yn y maes hwn.

O safbwynt amcanion cymdeithasol eraill caffael, sef cytundebu mewn modd sy'n helpu i gymell busnesau bach a chanolig eu maint (SME) a chaffael cynnyrch sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar y graddau y mae GTA Cymru yn diwallu'r amcanion yma ar hyn o bryd.

Lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Siarter Cymru ar gyfer caffael sy'n gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig eu maint (Agor Drysau) sy'n gynllun LICC anstatudol gwirfoddol. Erbyn hyn, mae'r holl GTA yng Nghymru wedi ymgofrestru i'r Siarter.

MATERION ALLWEDDOL

Mae'n rhaid i'r GTA i gydnabod y rôl mae caffael yn ei chwarae wrth gyflawni amcanion y GTA a'i gyfraniad at faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu, amrywiaeth, cydraddoldeb a chynaladwyedd. Mae'n rhaid i'r GTA i ddatblygu cytundebau cenedlaethol a rhanbarthol, tra hefyd yn sicrhau fod cyflenwyr yn deall amcanion allweddol y gwasanaeth a'u bod yn medru arddangos eu henw da wrth gyflawni gwerth am arian trwy ddefnydd effeithiol o'u cadwyn gyflenwi, i sicrhau fod cwmnïau llai, mentrau cymdeithasol, busnesau ethnig lleiafrifol a chyflenwyr y sector gwirfoddol a chymunedol yn medru cynnig am fusnes, a bod marchnad ar gyfer cynnyrch sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn cael ei datblygu. Mae rôl cyflenwyr arbenigol busnesau bach a chanolig eu maint (SME) wrth gyflawni elfennau mwy'r cytundebau a threfniadau fframwaith yn allweddol hefyd.

TARGEDAU

Bydd GTAC yn:

- Datblygu dangosyddion i fesur y % o fusnes a ymgymerir gan fusnesau bach a chanolig eu maint (SME).

- Ystyried y modd gorau o gymell busnesau bach a chanolig eu maint (SME) i fasnachu / delio gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub e.e. gwefan, canllawiau caffael ayb.

- Sicrhau fod Swyddogion Cydraddoldeb ym mhob Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhoi hyfforddiant ar gydraddoldeb i bersonél caffael.

- Caffael cynnyrch sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac sy'n lleihau ei effaith ar yr amgylchedd, gan sianelu hyn trwodd i'r Grŵp Datblygu Cynaliadwy ym mhob Gwasanaeth Tân ac Achub.

- Mynychu digwyddiadau "Cwrdd â'r Prynwr".

- Mynd ati'n weithgar i ddilyn ethos y siarter "Agor Drysau".

- Rheolwyr Caffael i weithio'n agos gyda Gwerth Cymru, gan ddefnyddio'r modelau S.P.A.F. a S.R.A. i ddatblygu strategaeth ar gaffael cynaliadwy.

- Sicrhau fod cytundebau'n cynnwys cymalau i gymell cyflenwyr i ddatblygu agwedd ragweithiol at gydraddoldeb a materion moesegol ac amgylcheddol.

- Sicrhau, yn y tymor hirach, fod Rheolwyr Caffael a Gwerth Cymru yn ymgymryd â dadansoddiad o effaith risgiau amgylcheddol y cynnyrch a gafaeliwyd. Bydd asesiad yn cynnwys effaith ei ddefnydd a'i waredu ar ddiwedd ei oes ar yr amgylchedd. Ni ddylid caffael unrhyw gynnyrch a ystyrir yn beryglus i'r amgylchedd. Mae'n rhaid bod modd ailgylchu'r holl gynnyrch ar ddiwedd eu hoes.

- Sicrhau fod personél caffael yn ymgymryd â hyfforddiant cynaladwyedd, nid ar gaffael yn unig, ond ar ystod o faterion.

- Rheolwyr Caffael i lunio rhestr o gyflenwyr cymeradwy, a aseswyd trwy gyfrwng holiadur a fydd yn cynnwys y meini prawf canlynol, ble bod hynny'n berthnasol ac yn briodol:

    - ❒ Sicrwydd Ansawdd (ISO 9000) neu ryw beth sy'n gymesur / dewis arall

    - ❒ Cydberthynasau Hiliol / Cyfleoedd Cyfartal

- ❒ Trefniadau Iechyd a Diogelwch
- ❒ Darpariaethau Yswiriant
- ❒ Datblygiad Amgylcheddol/Cynaliadwy (ISO 14001) neu ryw beth sy'n gymesur / dewis arall
- ❒ Rhoi ystyriaeth i BIP, Constructionline a chynlluniau cyn cofrestru perthnasol eraill

- Datblygu dangosyddion i fesur y % o gynnyrch sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd a gafaeliwyd. Mae angen sefydlu diffiniad clir o beth sy'n "gyfeillgar i'r amgylchedd" cyn y medrir asesu cynnyrch.

- Sicrhau fod Rheolwyr Caffael yn trafod gyda Swyddogion Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Ymyrraeth a Hyfforddiant am asesiadau risg llawn ar gyfer caffael yr holl offer/cerbydau newydd, i sicrhau fod materion yn ymwneud â thrafod â llaw'n cael eu cadw i leiafswm.

Bydd GTA unigol yn:
Datblygu Strategaeth Caffael gynaliadwy, bob yn un, yn unol â'r ddogfen hon a'r cynllun gweithredu sy'n deillio o'r asesiad S.P.A.F.

Rheoli Risg

AMCAN WFRSP6

Nid oes gan y Gwasanaeth Tân ac Achub fethodoleg cyffredin ar gyfer asesu risg cerbydau ac offer cyn iddynt gael eu defnyddio'n weithredol. Nid yw rheoli risg masnachol wedi'i ddeall yn dda iawn, ac mae angen i'r Gwasanaeth i ddatblygu trefniadau rheoli parhad busnes cadarn pe digwydd bod amhariad ar y cyflenwyr allweddol.

Amcan Allweddol:

I sicrhau fod risgiau prosiect, masnachol, trefniadaethol ac iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried ar gyfer pob caffaeliad allweddol, bod cynlluniau wrth gefn addas mewn lle ar gyfer cynnyrch allweddol, a bod gan bawb sydd mewn rolau rheoli prosiect yn meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol. Dylai Rheoli Risg gael ei ymgorffori yn y broses gaffael.

BLE YR YDYM NI NAWR

Ar hyn o bryd, mae asesiadau risg yn rhan o'r broses gaffael o ran cerbydau ac offer, ond nid ydynt yn dilyn unrhyw safon neu fethodoleg gyffredin. Mae diffyg safoni cerbydau ac offer yn golygu bod awdurdodau unigol yn medru bod yn agored i golli cyflenwadau. Ar y cyfan, nid yw'r risgiau masnachol wedi eu deall yn dda iawn yn y gwasanaeth. Buasai'r risgiau yma'n cael eu lleihau petai yna agwedd cyd-drefnedig at fanyleb a dyluniad offer allweddol, ac at bwrcasu. Gellir goresgyn hyn gyda'r posibilrwydd o gael mynediad i rai o'r cytundebau Firebuy. Yn ogystal, yn achos methiant peiriant neu offer, bydd safoni'r adnoddau yma'n galluogi awdurdodau i gydgyfrannu adnoddau wrth gefn, a byddai hyn yn meithrin gwydnwch mewn modd effeithlon ac economaidd.

MATERION ALLWEDDOL

Tra bod pob awdurdod yn cynnal asesiadau risg o'r offer sy'n cael eu caffael, nid ydynt o anghenraid yn cymhwyso safonau cyffredin. Mae angen bod Awdurdodau'n medru canfod pwy sy'n berchen ar risgiau masnachol o ran caffael pethau allweddol, a gellir gwneud hyn trwy gyfrwng methodoleg matrics risgiau, ac asesu risgiau wrth fwrw ymlaen â phrosiectau.

TARGEDAU

Bydd GTAC yn:

- Ystyried 'prynu i mewn' i gynnyrch FiReBuy, yn cynnwys y cynlluniau rheoli risg sydd ganddo ar gael, ble eu bod yn berthnasol ac yn briodol.

- Ar gyfer prosiectau caffael sy'n defnyddio darparwyr a leolir yng Nghymru, yn cynnwys busnesau bach a chanolig eu maint, cymell y defnydd o arbenigedd Gwerth Cymru.

- Sicrhau fod yr holl lefelau arwyddocaol o reoli caffael yn cynnwys agwedd Rheoli Risg, i sicrhau fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu a pharhad busnes. Bydd hyn yn cyd-fynd â disgwyliadau Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'n ymddangos llawer yn y canllawiau drafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynllunio i Leihau Risg i GTA yng Nghymru.

- Cynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant (TNA) o'r personél caffael priodol yn y tri GTA, gan sicrhau fod hyfforddiant ar reoli risg yn cael ei ddarparu yn ôl y galw. Bydd y TNA hwn yn cydfynd â'r hyn a argymhellwyd yn WFRSP5 – Cynaladwyedd a'r Amgylchedd.

- Cytuno ar fethodoleg gyffredin ar gyfer caffael peiriannau tân, penderfynu ar bolisi Cymru a manyleb yn seiliedig ar allbwn. Mae angen sefydlu cofrestr risg a mesurau rheoli cysylltiol i ddiogelu'r prosiect hwn.

Cost ac arbedion effeithlonrwydd

AMCAN WFRSP7

Mae'r agenda 'Creu a Chyflawni'r Cysylltiadau' ac adroddiad Beecham yng Nghymru wedi tanlinellu rôl bosib Caffael wrth gyflawni arbedion o ran cost ac effeithlonrwydd, yn enwedig trwy gydweithredu. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau a'r systemau sydd mewn lle o'r fath fel bod modd mesur yr arbedion yma'n effeithiol ac ni fedrir mesur gwelliant cyffredinol mewn effeithlonrwydd.

Amcan Allweddol:

I sicrhau fod trefniadau caffael mor effeithiol ag sy'n bosib, a bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cyflawni arbedion mesuradwy blwyddyn ar ôl blwyddyn o ganlyniad i weithgarwch caffael trwy welliannau o ran cost ac effeithlonrwydd.

BLE YR YDYM NI NAWR

Yn dilyn cyhoeddiad y ddogfen Creu'r Cysylltiadau yng Nghymru, gosodwyd targed i'r Sector Cyhoeddus o gyflawni £600 miliwn o ran effeithlonrwydd (arian parod a heb fod yn arian parod) yn y 5 mlynedd rhwng 2005 a 2010. Dyrannwyd targedau GTA ar gyfer effeithlonrwydd yn unol â Chynghorau Sirol, mor eang ag 1% o'u cyllidebau fesul blwyddyn. Mae'r targedau yma'n cynnwys arbedion o ganlyniad i well arferion caffael. Nid yw'r effeithlonrwydd hwn yn cael ei gyflawni trwy gwtogi ar wasanaethau'r rheng flaen i'r defnyddwyr.
Nod y targed effeithlonrwydd yw sicrhau fod y defnydd mwyaf yn cael ei wneud o'r buddsoddiad mewn llywodraeth ganolog a lleol, yn cynnwys GTA, a ddarperir gan y taliadau Grant Cynnal Incwm blynyddol.

Dylai'r canlyniad fod yn un o well ansawdd a rhychwant o wasanaethau tân ac achub lleol, ac yn bwysicaf oll i achub mwy o fywydau wrth leihau'r angen am unrhyw gynnydd mewn trethi lleol. Bydd yr enillion effeithlonrwydd a sylweddolir gan Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu cadw'n lleol i'w hail-fuddsoddi yng ngwasanaethau'r rheng flaen.

MATERION ALLWEDDOL

Mae wedi bod yn anodd mesur enillion oherwydd y gwahanol systemau gwybodaeth a threfniadau. Cafwyd digonedd o wybodaeth am gostau presennol, ond ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i fodelau cyflawni gwasanaeth eraill.

TARGEDAU

Bydd GTAC yn:

- Paratoi polisi, trefniadau a strategaeth caffael sengl, a fydd yn cydfynd â'r Strategaeth Caffael Genedlaethol.

- Cyfuno'r trefniadau presennol, ynghyd â rheolau sefydlog/trothwyau ariannol ar gytundebau a thendrau. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys Rheolwyr Cyllid pob Gwasanaeth Tân hefyd.

- Nes y fath amser fod yna bolisi caffael unedig, rhoi cytundebau ar y sail ganlynol:

    - ❒ Egwyddor MEAT (Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd).

    - ❒ Mabwysiadu methodoleg costau oes gyfan.

- Rheolwyr Caffael i gytuno ar fethodoleg ar gyfer cofnodi arbedion ac effeithlonrwydd a gyflawnwyd o ganlyniad i weithgarwch caffael, yn cynnwys:

    - ❒ Arbedion Cost.

    - ❒ Arbedion Effeithlonrwydd.

    - ❒ Gwelliannau i'r Gwasanaeth.

    Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth ar werth y cytundebau sydd i'w hasesu. Wrth gofnodi gwybodaeth, mae angen caniatáu ar gyfer chwyddiant a grymoedd y farchnad.

- Datblygu dosbarthiad gwariant cyffredin mewn cydweithrediad â Rheolwyr Caffael a Rheolwyr Cyllid o'r tri GTA. Bydd y dosbarthiadau presennol yn cael eu harchwilio a'u cytuno.

- Cynnal adolygiad o weithgarwch caffael pob GTA i fesur perfformiad. Bydd hyn yn galw am fainc fesur yn erbyn GTA a/neu gyrff cyhoeddus eraill.

- Sefydlu grŵp llywio i ymchwilio i'r sialensiau sydd o'n blaenau.

Rheoli Cytundebau a Pherfformiad

AMCAN WFRSP8

Bydd cytundeb sy'n cael ei gaffael yn broffesiynol ond yn aros yn gytundeb da os caiff ei reoli'n broffesiynol trwy gydol oes y cytundeb. Mae hyn yn galw am agwedd strwythuredig at gynllunio ac adolygu monitro perfformiad, yn ogystal â rheoli'r berthynas gyda chyflenwyr yn effeithiol.

Amcan Allweddol:

I sicrhau fod cytundebau'n cael eu rheoli'n effeithiol a gwella perfformiad cytundebol.

BLE YR YDYM NI NAWR

Yn y gorffennol, nid oedd cytundebau a drafodwyd gan y GTA yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ar gyfer contractwyr, a fyddai wedi caniatâu dadansoddiad clir o gydymffurfiaeth cyflenwyr gyda'r lefelau o wasanaeth yr oedd hawl gan awdurdodau i'w disgwyl. Nid oedd ychwaith yn arfer cyffredin i reoli cytundebau, cydberthynasau cyflenwyr na datblygiad cyflenwyr mewn modd rhagweithiol.

MATERION ALLWEDDOL

Dylai cyfresi o fodelau o DPA a strwythurau rheoli cytundebau fod ar gael i adrannau caffael wrth deilwrio DPA, a dylai trefniadau rheoli cytundeb ymddangos fel rhan annatod o'r holl gaffaeliadau mawr o'r cychwyn cyntaf. Bydd safonau uchel o reoli cytundebau'n cynorthwyo contractwyr i gynnal a gwella lefelau o berfformiad a chyflawni gwasanaeth yn barhaus.

TARGEDAU

Bydd GTAC yn:

- Yn ddelfrydol, sicrhau trefniadau rheoli cytundeb effeithiol sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer contractwyr a fydd yn caniatâu dadansoddiad clir o gydymffurfiaeth cyflenwyr, er ar hyn o bryd mae'r adnoddau cyfyngedig yn cyfyngu cynnydd yn y maes hwn. Mae datblygu hyfforddiant caffael yn allweddol i'r nod hwn.

- Datblygu a chyfranogi mewn Grwpiau Perfformiad Monitro ar gyfer cytundebau mawr. Bydd y grŵp yn cynnwys dechreuwr (defnyddiwr) y cytundeb, cynrychiolydd o'r Tîm Polisi a Chaffael, Caffael a'r contractwr (ble fod hynny'n briodol). Dylai'r gwasanaeth gael ei fonitro ar ysbeidiau aml yn ystod cyfnod y cytundeb. Bydd perfformiad gwael yr adroddir amdano'n cael ei ymchwilio ac yn cael ei gymryd o ddifrif.

- Cytuno ar agwedd dogfennau tendro safonol ar gyfer yr holl gytundebau, i sicrhau unffurfiaeth. Bydd yr holl gytundebau a gaiff eu tendro yn sicrhau nad yw'r Gwasanaeth Tân yn agored i unrhyw risgiau. Dylai cytundebau gynnwys amodau craidd megis:

    - ❒ Iechyd a Diogelwch
    - ❒ Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
    - ❒ Rhyddid Gwybodaeth
    - ❒ Diogelu Data
    - ❒ Safonau
    - ❒ Indemniad ac Yswiriant
    - ❒ Cynaladwyedd (Siarter Agor Drysau)

  Dylai Gwasanaethau Cyfreithiol ardystio'r dogfennau terfynol. Er mwyn cyfuno'r holl drefniadau caffael, mae'n rhaid eu halinio gyda threfniadau cytundeb pob Gwasanaeth Tân.

Gwasanaethau Technegol

AMCAN WFRSP9

Mae gwasanaethau technegol yn sicrhau fod cynnyrch yn cael eu hadolygu'n gyson yn erbyn arloesedd, gwelliannau a datblygiadau technegol yn y farchnad, wrth geisio gwelliant parhaus a chofleidio'r gofynion newydd a adnabuwyd wrth i rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub newid i wynebu sialensiau a bygythiadau newydd ac ymddangosiadol.

Amcan Allweddol:

I fabwysiadu agwedd GTA Cymru gyfan at restru, profi a derbyn gweithgareddau trwy gyd-ddatblygu proses genedlaethol, a gefnogir gan gronfa ddata gyffredin a gwaith a flaenoriaethir yn genedlaethol.

BLE YR YDYM NI NAWR

Mae GTA Cymru wedi cytuno ar broses "Gwerthuso Technegol" gyffredin, i ddefnyddio patrymluniau generig ar gyfer ymchwil a datblygiad. Mae'r agwedd cyffredin hwn yn galluogi i werthuso technegol i gael ei gynnal gan unrhyw un o'r tri ATA ar ran y ddau arall.

Mae'r fframwaith sydd mewn lle'n cydnabod fod "Gwerthuso Technegol" yn rhan bwysig o'r Broses Gaffael gyffredinol, ac mae'n ymgais i oresgyn y gwasanaethau sy'n bodoli er lles y tri ATA yng Nghymru.

Mae "Gwerthuso Technegol" yn caniatâu ar gyfer ystyried Firebuy ac opsiynau eraill, ble y gellir dangos manteision o ran graddfeydd amser yn llai ar gyfer caffael, gwerthuso technegol, asesiadau risg neu unrhyw un o fanteision arall y fframwaith caffael.

MATERION ALLWEDDOL

Dylai GTA Cymru ddatblygu strategaeth weithredol, sy'n blaenoriaethu materion gweithredol ac sy'n canfod rhaglen dreigl o wariant mawr.

Mae angen agwedd cydweithrediadol i ganfod a blaenoriaethu gwariant ar raglen dreigl, blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae cydweithredu'n hanfodol ar brosiectau technegol mawr a chyd ymarferion caffael, o'r achos busnes i'w gwarediad (oes gyfan), er mwyn osgoi ailadrodd o ran gweithgarwch ymchwil a datblygiad, ac i wneud gwell defnydd o adnoddau arbenigol a sgiliau ac arbenigedd datblygu.
Mae angen diffiniad clir o'r Arbenigedd Gwasanaethau Technegol a'r cyfraniad mae'n ei wneud i'r swyddogaeth Caffael.

Yn ogystal, mae angen cyd-drefnu datblygiad technegol GTA Cymru, yn cynnwys cydweithredu gyda GTA gweddill y DU, o bosib.

TARGEDAU

Bydd GTAC yn:

- Sefydlu fforwm Gwasanaethau Technegol Cymru Gyfan.
- Darparu llyw strategol ac adolygu'r trefniadau presennol.
- Paratoi rhaglen o wariant technegol mawr.
- Cydweithredu ar brosiectau caffael mawr ac archwilio'r opsiynau presennol e.e. Firebuy a fframweithiau eraill (fframwaith yr Alban).
- Canfod a blaenoriaethu gwaith ar gyfer y broses "gwerthuso" a phrosiectau uniongyrchol.
- Symud tuag at fanyleb yn seiliedig ar allbwn, ble bod hynny'n gymwys.
- Sicrhau agwedd yn seiliedig ar y prosiect at G.T, gan ddefnyddio'r offer rheoli prosiect priodol.
- Trafod gyda CFOA i sicrhau fod y Bwrdd Caffael Cenedlaethol yn cael ei sefydlu fel 'cleient gwybodus' ar gyfer gweithgareddau G.T a'i fod yn cefnogi'r datblygiad hwn.
- Trafod gyda'r fforymau cenedlaethol priodol e.e. Firebuy a grwpiau perthnasol eraill (e.e. T.O.G.) os a phan fod angen.
- Mabwysiadu agwedd cost oes gyfan a chanfod y risgiau i'r prosiect.

e-Gaffael

AMCAN WFRSP10

Gellir diffinio eGaffael fel amrywiaeth o offer sy'n awtomeiddio'r broses gaffael – y dewis o gyflenwyr a phwrcas nwyddau a gwasanaethau. Yn ogystal, mae'r fath offer yn galluogi cyflenwyr i drafod ar lein (derbyn archebion, anfon anfonebau ayb), yn ogystal â darparu gwybodaeth fanwl am reoli.

Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn medru cyflawni effeithlonrwydd yn y cylched caffael-i-dalu, yn cynnwys cyflymu'r cylched taliad llawn ariannol a gostyngiad yng nghostau prosesu trafodiad, trwy wneud busnes trwy gyfrwng electronig.

Yng Nghymru, mae hwn yn llif gwaith mawr i'r Sector Cyhoeddus, sy'n torri ar draws sawl swyddogaeth. Caiff hyn ei hwyluso gan LICC trwy dîm Caffael Gwerth Cymru (GC). Mae'r Grŵp Llywio wedi paratoi papur trafod sy'n amlinellu'r sialensiau a wynebir, gan ddiffinio'r modd o gaffael yn electronig sy'n debygol y gellid ei gyflawni yng Nghymru, sy'n amlinellu'r amcanion strategol a chynllun gweithredu posib. Mae'n dyfynnu "nid yw strategaeth yn ddim byd heb weithredu ardderchog" fel y bo'r achos yn aml ble bod strategaethau manwl yn cael eu hysgrifennu, ond bod methiant wrth eu cyflawni am amryw o resymau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu Cyfnewid Cymru, i sicrhau fod prosesau caffael a thalu sector cyhoeddus Cymru, a'u sylfaen cyflenwi, yn cael eu moderneiddio yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae'r moderneiddio hwn yn fodd allweddol o gyflawni arbedion effeithlonrwydd.

Rhaglen newydd sy'n torri tir newydd yw Cyfnewid Cymru, a fydd yn sicrhau mai Cymru fydd y cyntaf yn y DU i ddefnyddio system caffael, archebu a thalu electronig cyfoes - eGaffael - a fydd yn cyflawni arbedion o hyd at £200m i'w ail-fuddsoddi yn Sector Cyhoeddus Cymru.

Rhaglen "gwasanaeth a rennir" gydweithrediadol yw Cyfnewid Cymru, a fydd yn cyflawni cytundebau gwerth gorau'n fwy effeithiol ac effeithlon trwy ddefnyddio offer electronig megis eDendro ac eArwerthu, lleihau costau trafodiad mewnol i sefydliadau a chyflymu taliadau i gyflenwyr. Yn ogystal, bydd yn cynnwys Cerbyd Pwrcasu Cymru, fel dull talu ble bod hynny'n briodol.

Bydd yn rhoi pwynt mynediad sengl i gyflenwyr i amryw o brynwyr sector cyhoeddus. I brynwyr, bydd yn rhoi profiad siop debyg i Amazon, a fydd yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad i gatalogau electronig ar lein ac yn galluogi i anfonebau i gael eu derbyn a'u talu trwy gyfrwng electronig.

Pob blwyddyn, mae cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario dros £4.5bn ar gaffael nwyddau, gwasanaethau a phrosiectau cyfalaf. Mae gan y prosiect hwn y potensial i gyflawni gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar y dinesydd. Hefyd, bydd yn cael effaith gynyddol ar gynyddu effeithlonrwydd, gwella cymorth i Fusnesau Bach a Chanolig eu Maint, gwella cydweithredu ar draws y sectorau a gostwng faint o bapur a ddefnyddir.

Mae'n amlwg, er mwyn galluogi cyfranogiad mewn marchnadfa gymysg, fe fydd y gallu i fasnachu ar ffurf electronig yn elfen allweddol. Oddi fewn i'r diwydiant T ac A, mae cyfleoedd i ddefnyddio'r fframwaith Firebuy a'r porth Bluelight yn amodol i fynediad electronig i alluogi tendrau i gael eu cyflwyno a phryniannau i gael eu gwneud gan gytundebau a gynigwyd. Yng Nghymru, ar hyn o bryd mae caffael nad sy'n benodol i dân yn cael ei gynnwys gan borth prynwchigymru GC, ac mae yna ddisgwyliad gan LICC y bydd yr holl sectorau'n defnyddio'r cyfleuster hwn. Mae mwy a mwy o gytundebau mawr yn cynnwys cymalau yn gofyn am gyfleusterau masnachu electronig, i wella'r modd mae'r cytundeb yn cael ei reoli,

i elwa o'r llwybr archwilio amgen ac annog codi archeb, rheoli stoc, anfonebu cyfunol electronig ayb.

Un o brif dargedau e-Gaffael yw mesur y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r ganran o nwyddau a gwasanaethau sydd i'w harchebu trwy gyfrwng electronig. Gellir gwneud arbedion sylweddol wrth fasnachu'n electronig yn hytrach na defnyddio prosesau sy'n berthynol i'r llaw.
Mae e-Gaffael yn rhan o gyfres o offer i gyflawni gwasanaeth proffesiynol strategol er lles yr holl fudd-ddeiliad. Mae'n bosib nad yw'n effeithiol ar ei ben ei hun, oni bai ei fod yn ymgysylltu â strategaeth a'i fod yn cydfynd â'r prosesau eraill sydd mewn lle.

Amcan Allweddol:

I sicrhau fod y GTA yn medru diwallu'r targedau e-lywodraeth mewn perthynas â chaffael, a bod agwedd cyson yn cael ei gymryd ar sail genedlaethol/rhanbarthol, gyda golwg ar weithredu e-gaffael o fewn y gwasanaeth.

BLE YR YDYM NI NAWR

Mae GC wedi cynnal arolwg o gyfleusterau e-gaffael ar draws y sector cyhoeddus, er nad oedd hyn yn orfodol. Mesurwyd hyn ymhellach yn ddiweddar trwy gyfrwng arolwg Dangosyddion Perfformiad peilot Swyddfa Archwilio Cymru (WAO).

Yn y DU nid yw data wedi bod ar gael yn hawdd ar faint o ATA sydd â mynediad i systemau caffael electronig. Yn y gorffennol, nid oedd gwefannau ATA yn dueddol o gynnig porth ar gyfer e-gaffael.

MATERION ALLWEDDOL

Mae amrywiaeth, addasrwydd a chostau datblygu atebion busnes e-gaffael ar gyfer gofynion y GTA yn amrywio'n unol â gofynion yr ATA. Yn aml, mae'n fwy effeithiol i gydweithredu'n rhanbarthol gyda Chynghorau mwy a chyrff cyhoeddus eraill, naill ai'n uniongyrchol neu trwy GC, yn hytrach na gyda ATA eraill, yn enwedig ble bod systemau ariannol presennol eisoes yn cael eu darparu ar gyfer yr ATA.

Dylid datblygu e-Farchnadfeydd i gynorthwyo ATA i gydweithredu, fel y medrant gael mynediad i gytundebau fframwaith a chytundebau, gweithio gyda sylfaen cyflenwyr gyffredin, rhannu arfer gorau a rhannu'r risg.

Mae yna fanteision i gydweithredu rhwng ATA wrth dendro'n electronig, oherwydd ei bod hi'n debygol y bydd arbedion effeithlonrwydd posib sylweddol o gynnig llwyfan tendro cyffredin, yn enwedig i gyflenwyr tân penodol. Nid yn unig

y byddai hyn yn cyfrannu tuag at lywodraeth electronig a'r agenda e-lywodraeth yn gyffredinol, ond byddai'n arwain hefyd at enillion effeithlonrwydd.

Mae'r 'Porth Blue Light,' sef amgylchedd tendro electronig aml wasanaeth, yn enghraifft sy'n galluogi'r Awdurdodau sy'n cyfranogi i dendro a cheisio dyfynbrisiau ar ffurf electronig. Ar hyn o bryd, mae dros 800 o gyflenwyr tân penodol wedi cofrestru ar y cyfleuster hwn, ynghyd â llawer mwy o gyflenwyr nad sy'n dân benodol. Tra bod mynediad i'r system yn rhad ac am ddim i gyflenwyr, mae yna ffi i'r rhai hynny sy'n gosod Tendrau. Mae'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol (CLG) wedi cytuno i dalu'r ffi cydosod ar gyfer pob ardal, ond bydd yn rhaid i'r costau parhaus i gael eu talu gan yr ardaloedd neu gan Wasanaethau Tân ac Achub unigol, os ydynt yn dymuno'i ddefnyddio ar gyfer cytundebau neu dendro.

Mae'r sail ar gyfer Cymru yn debyg i'r trefniant Firebuy, ble y cynigir tanysgrifiad cydranedig ar sail ranbarthol. Mae angen cronfa ddata gyffredin ar gyfer cytundebau GTA, a fyddai'n galluogi ATA i gael mynediad at gytundebau cydweithrediadol cyfredol sydd â'r potensial i gyflawni arbedion. Gellir datrys hyn trwy gael yr ATA i gael mynediad i Gronfa Ddata Caffael Blue Light (BLPD). Mae hyn yn galluogi ATA, ynghyd â Gwasanaethau Brys eraill, i storio eu manylion am gytundebau lleol, rhanbarthol a chydweithrediadol, yn ogystal â rhoi mynediad i eraill.

Yng Nghymru, mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol, oherwydd bod LICC yn hyrwyddo'r cynllun GC a'r themâu cydweithredu rhwng y sector cyhoeddus cyfan, gydag agwedd tebyg i'r uchod ar gyfer caffael nad sy'n benodol i'r sector tân ac achub. Mae yna ddisgwyliad y bydd pob corff cyhoeddus yn defnyddio'r cytundebau fframwaith sydd mewn lle a phorth PrynwchiGymru ble bod hynny'n addas, a'u bod yn cefnogi cynaladwyedd yr economi lleol.

Mae'r cytundebau presennol eisoes yn defnyddio rhannau o e-gaffael o ran archebu ar lein a manylion anfonebu electronig cyfunol, ac mae'r cytundebau fframwaith bron wedi eu e-alluogi'n gyfan gwbl o'r cychwyn i'r diwedd. Mae meddalwedd systemau caffael yn cynnig atebion cyfan, o archebu o bell yn seiliedig ar y we, rhyngwynebu gyda safleoedd cyflenwyr allweddol sy'n galluogi i archebion uniongyrchol i gael eu gosod trwodd i gyfleusterau talu electronig. Mae hyn yn cyfrannu at ofynion y rhaglen effeithlonrwydd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn, er enghraifft, bod enillion effeithlonrwydd o £32 fesul trafodaeth wrth ddefnyddio Cardiau Caffael, yn hytrach na phrosesau sy'n berthynol i'r llaw.

Felly, agwedd gyfun yw'r ateb mwyaf tebygol ar gyfer y diwydiant T ac A yng Nghymru, cydweithredu rhwng y tri ATA ar draws y sector cyhoeddus cyfan trwy gyfrwng GC ac ar gyfer anghenion penodol y GTA, tanysgrifio i byrth Firebuy a Bluelight o leiaf.

TARGEDAU

Cymru:

Cydweithredu i symud yr agenda e-gaffael yn ei blaen o fewn y GTA.

Gweithio gyda GC i gefnogi ei amcanion e-gaffael a mabwysiadu'r egwyddorion ac ystyried rhaglen Cyfnewid Cymru.

Cydweithredu ar sail Cymru gyfan ar draws y Sector Cyhoeddus, ble bod hynny'n addas.

Ystyried yn ofalus yr opsiwn FiReBuy ar gyfer caffael gweithredol sy'n tapio i mewn i'r cytundebau fframwaith cenedlaethol, y fforwm technegol a manteision ac arfer da cysylltiol eraill.

Ystyried ymhellach mabwysiadu'r porth Bluelight i hysbysebu cyfleoedd ar gyfer cytundebau sy'n benodol i'r GTA.

Os caiff yr uchod eu hystyried, yna bydd yn hanfodol bod mecanwaith a threfniadau nawdd priodol yn cael eu rhoi mewn lle.

Bydd GTA unigol yn:

Rhoi ystyriaeth i'r porth GC ar gyfer rhybuddion caffael, tendrau, dyfynbrisiau anweithredol ayb, ac yn newid y polisi caffael i alluogi hyn.

Adolygu gweithgarwch e-gaffael unigol.

Mabwysiadu'r porth Bluelight ar gyfer gosod rhybuddion gweithredol, tendrau, dyfynbrisiau ayb., a newid y polisi i alluogi hyn.

Ystyried y defnydd o gardiau caffael, fel rhan o strategaeth i gyflawni targedau e-gaffael. Mae gan GC raglen PC ar gael ac maent yn medru cynorthwyo gyda'r broses hon.

Sicrhau fod unrhyw newidiadau a gytunir yn cael eu cymeradwyo a'u hadlewyrchu mewn polisi, a'u hysgrifennu i mewn i gytundebau a dogfennau ITT/N yn y dyfodol.

ATODIAD 1

Y Swyddogaeth Caffael Ganolog yng Ngwasanaeth T ac A Lloegr

Er mwyn cyflawni caffael GTA yn Lloegr, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi sefydlu corff i yrru'r Strategaeth Caffael Genedlaethol yn ei blaen. Enw'r corff hwn yw ***FiReBuy Limited***.

Sefydlwyd FiReBuy Ltd fel cwmni cyfyngedig trwy warant. Disgwylir mai'r gwarantwyr wrth iddo symud i mewn i'w gam gweithredol cynnar fydd pob un o'r Awdurdodau Tân ac Achub (ATA) yn Lloegr a'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn ogystal â meddu ar statws cwmni cyfyngedig, mae FiReBuy Ltd wedi cael ei sefydlu fel Corff Cyhoeddus Anadrannol (NDPB). Oherwydd bydd ei gylch gwaith yn ymestyn ar draws Lloegr, dylai System Cyfrifon Ewrop ei gwneud hi'n ofynnol iddo gael ei ddosbarthu fel corff llywodraeth ganolog.

Mae'r statws hwn yn golygu bod yn rhaid penodi Cyfarwyddwyr trwy gystadleuaeth deg ac agored, a reoleiddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Byrddau Rheoli Rhanbarthol Cyhoeddus ac ni fydd pob un yn medru penodi Cyfarwyddwr ar fwrdd FiReBuy Ltd yn awtomatig. Fodd bynnag, bydd aelodau awdurdod ac RMB yn cael eu cymell i wneud cais trwy'r gystadleuaeth agored.

Er mwyn sicrhau fod gan Awdurdodau Tân ac Achub, Swyddogion Proffesiynol a Llywodraeth Leol lefel uchel o fewnbwn i mewn i reoli FiReBuy Ltd, ac i gydnabod rôl bwysig aelodau etholedig wrth sicrhau atebolrwydd y bwrdd, byddwn yn penodi Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Gwasanaethau Tân yr LGA a chynrychiolydd i'r CFOA, fel cyfarwyddwyr bwrdd gyda hawliau pleidleisio llawn, ac i gydnabod y gwaith y maent wedi ei wneud o ran caffael yn genedlaethol, bydd cynrychiolydd o Awdurdod Tân a Chynllunio Brys Llundain, yn cael ei benodi fel cyfarwyddwr bwrdd gyda hawliau pleidleisio llawn. Wrth i ddalwyr y swyddi yma gylchdroi, buasent yn rhoi i fyny eu swyddi cyfarwyddwr ar FiReBuy Ltd o blaid eu holynydd.

Bydd y Bwrdd yn cynnwys:

- Cadeirydd a benodwyd trwy gystadleuaeth agored
- 6 chyfarwyddwr a benodwyd trwy gystadleuaeth agored

- 3 chyfarwyddwr yn rhinwedd eu swyddi (LGA, CFOA, LFEPA)

- Cymdeithas Ymarferwyr Caffael yn y Gwasanaeth Tân (APPFS)

Yn ogystal, bydd arsyllwyr yn mynychu cyfarfodydd y bwrdd:

- Prif Weithredwr FiReBuy Ltd

- Mae'r ODPM, ac yn fwyaf diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi cael eu gwahodd i fod yn arsyllwyr

Mae Aelodaeth o'r Bwrdd yn amodol i ddoethineb y Gweinidogion, sy'n medru cynyddu neu ostwng y nifer o aelodau yn ôl y llwyth gwaith. Bydd yr LGA a'r CFOA yn cyfranogi'n weithgar yn y broses recriwtio, a oruchwylir gan Aseswr Annibynnol a gymeradwywyd gan yr OCPA.

Fel sy'n arferol yn unol â chyfraith cwmniau'r DU, rhwymedigaeth y Cyfarwyddwyr fydd cynrychioli ac amddiffyn buddiannau'r cwmni'n gyffredinol, yn hytrach na buddiannau'r rhai hynny a'u penododd. Bydd yr amodau'n cael eu hamlinellu yng Nghytundeb yr Aelodau.

Mae'r trefniadau rheoli uchod yn cyfeirio at ATA yn Lloegr yn unig, bydd dogfennau cyfansoddiadol FiReBuy Ltd yn caniatâu'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i gael cynnig swyddi arsyllu, heb hawliau pleidleisio.

Byddai atebolrwydd i'r holl ATA yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng ymarfer hawliau aelodau. Bydd pob ATA yn rheoli mwyafrif y cyfranddaliadau ac yn gwneud argymhellion ar ailbenodi a pherfformiad y cyfarwyddwyr.

Mae'r CLG wedi talu costau sefydlu a rhedeg FiReBuy Ltd; mae hyn yn cynnwys £800,000 a wariwyd ar y Prosiect Gwisg Integredig. Bydd y CLG yn gweithio gyda ATA a thîm rheoli FiReBuy Ltd, i ganfod mecanwaith nawdd ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys adfer costau.

Mae Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân wedi ymateb i sefydliad arfaethedig FiReBuy Ltd trwy sefydlu Bwrdd Caffael Cenedlaethol, i ymddwyn fel 'cleient gwybodus' ar gyfer y caffaeliadau allweddol a oruchwylir gan FiReBuy Ltd, yn ogystal â darparu fforwm ymgynghorol proffesiynol ac arfer gorau ar gyfer y GTA, yn cynnwys rhai o'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses, mae lle ar Fwrdd y Cwmni a'r tîm rheoli i Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân. Yn yr un modd, mae'r CFOA wedi cynnig lle i FiReBuy Ltd ar y Bwrdd Caffael Cenedlaethol, i annog y cysylltiadau yma.

Fe fydd yn bwysig bod FiReBuy Ltd yn cadw cysylltiadau agos gyda'r diwydiannau sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae sefydlu FIRESA, sy'n cynrychioli diwydiannau'r gwasanaeth tân, yn cymell cyflenwyr a gwneuthurwyr allweddol i ystyried ymuno â'r sefydliad hwn, i hwyluso dialog rhwng FiReBuy Ltd a'r diwydiant.

Bydd rheoli'r cwmni'n feunyddiol yn gorwedd gyda'r Prif Weithredwr, gyda'r prif ffrydiau gwaith yn cael eu rheoli gan Benaethiaid Uned. Bydd y PSG a'r Penaethiaid Uned yn ffurfio'r Tîm Rheoli.

Bydd FiReBuy Ltd yn trafod cytundebau a gynigwyd i ATA, ac yn cymryd yr awenau wrth reoli cytundebau canlyniadol a monitro lefel y gwasanaeth. Bydd yn Awdurdod Cytundebu er dibenion rheolau caffael yr UE, ond yn y pen draw, yr ATA fydd yn caffael asedau ac yn cydweddu rhwymedigaethau.

Disgwylir y sefyllfa mewn perthynas â'r Prosiect Gwisg Integredig (PGI) i fod yn wahanol. Mae pryderon wedi cael eu crybwyll am ymarferoldeb pob ATA yn gwneud cytundeb gyda'r darparwr gwasanaeth llwyddiannus. Buasai'r trefniant hwn yn feichus iawn ac yn anatyniadol i'r sector masnachol, ffaith a gadarnhawyd gan gynigyddion PGI yn ystod yr ymarfer ymgynghori.

Gallai endid unigol arwyddo'r cytundeb gyda'r darparwr gwasanaeth wedi i gytundebau atodol gorfodol gael eu rhoi mewn lle rhwng yr endid hwnnw a'r ATA partner. Yn dilyn yr ymgynghoriad, fe ddaethom i'r casgliad ei bod hi'n annhebygol y byddai unrhyw ATA unigol mewn sefyllfa i dderbyn y cyfrifoldeb hwn ar ran y GTA. Bydd cyhoeddiad y ddogfen Gwahoddiad i Drafod 2 (ITN2) yn cael ei ddefnyddio i ymchwilio, gyda chynigyddion, i'r opsiynau ar gyfer naill ai cerbyd pwrpas arbennig (SPV) neu bydd FiReBuy Ltd yn cyflawni'r swyddogaeth hwn.

Bydd FiReBuy Ltd yn ymgymryd â rôl arweiniol mewn gweithgareddau profi a derbyn (a elwir weithiau'n ymchwil, ac a gyfeirir atynt nawr fel "gwasanaethau technegol") ar gyfer y ffyrdd o wariant o fewn i'w gylch gwaith, ac felly bydd yn osgoi dyblygu'r gwaith hwn ym mhob Gwasanaeth T ac A, ar gyfer y cytundebau hynny a ddefnyddir. Mae Rheolwr Technegol eisoes wedi cael ei benodi i ymgymryd â'r gwaith hwn oddi fewn i'r ffrwd gwaith Cerbydau Tân ac Offer Ymateb Brys. Buasai proses adolygu cydweithwyr ychwanegol ar gyfer yr elfen gwasanaethau technegol, trwy ATA neu gorff arall o bosib, yn cyflawni'r angen i'r gwaith hwn i gael ei seilio'n strategol ac yn wyddonol a'i ddilysu.

Tra ei bod hi'n ddyletswydd ar bob ATA i gynnal asesiadau addas a digonol o'r risg sydd ynghlwm wrth leoli a defnyddio eitemau o offer, fe'u caniateir i ddefnyddio asesiadau risg generig a baratowyd gan drydydd parti, Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cynghori ble bod asesiadau generig yn cael eu darparu a'u bod yn cynnwys deunyddiau hyfforddi, mai dyletswydd yr awdurdodau unigol yw sicrhau fod yr asesiad a'r deunyddiau'n

briodol ar gyfer eu hamgylchiadau penodol, a'u bod yn gwneud unrhyw addasiadau sydd eu hangen.

Ni ystyrir ei bod hi'n angenrheidiol na'n briodol hyd yn oed i Awdurdod i ddyblygu'r gwaith a wnaed wrth ddatblygu'r asesiad generig. Mae'r CFOA wedi dangos ei barodrwydd i weithredu asesiadau risg generig a ddatblygwyd yn y modd hwn, ar yr amod fod y fethodoleg yn gadarn a bod cryn dystiolaeth iddi.

Yn aml, mae Awdurdodau wedi dehongli bod gwerth gorau yn gyfystyr â'r gost isaf ar adeg pwrcasu. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, tra bod ATA yn honni eu bod yn deall yr egwyddor o dendr mwyaf manteisiol yn economaidd (MEAT), profiad cyflenwyr oedd mai cost gychwynnol sy'n dueddol o fod yn ffactor bwysicaf o hyd pan wneir penderfyniadau caffael. Yn gyffredinol, dim ond yr unedau caffael mwyaf neu fwyaf profiadol sy'n gwerthfawrogi'n llawn costau oes gyfan a materion yn ymwneud â gwell ansawdd. Yn aml, nid yw ansawdd y data ariannol yn ddigon cadarn i'w galluogi i gyfrif y gwir gostau oes gyfan. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i reolau sefydlog i sicrhau fod Awdurdodau'n cymhwyso egwyddorion costau oes gyfan yn gyson.

Tra bod FiReBuy Ltd yn pryderu ei bod hi'n bosib y bydd cyflenwyr sy'n gynigyddion aflwyddiannus yn ceisio hel Awdurdodau trwy gynnig cytundebau ar golled, a thrwy hynny tynnu rhywfaint i ffwrdd oddi wrth y cynigyddion llwyddiannus ar y cytundeb PGI, mae gan GTA Cymru amheuon am effaith monopoli'r cytundeb PGI oherwydd mai dim ond un cyflenwr sydd, ac felly buasai'n well ganddynt i gadw meddwl agored. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud am hyn pan fydd y Gwasanaeth yn penderfynu ar gytundebau cyfunol a bydd y penderfyniad hwnnw'n derfynol.

Yn Lloegr, os oes angen, bydd gofyn i Awdurdodau yn unol â s29(4) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, i ddefnyddio FiReBuy Ltd yn gynyddol oherwydd bod meysydd enwebedig o wariant e.e. cerbydau a PPE, yn disgyn o fewn i'w gylch gwaith, ac wrth i'w cytundebau presennol ddod i ben. Gyda golwg ar y meysydd yma o wariant, ystyrir wedyn bod dyletswydd ATA mewn perthynas â gwerth gorau wedi cael ei gyflawni. Fel cwmni nid yw FiReBuy Ltd yn medru bod yn agored i'r drefn gwerth gorau statudol, ond mae ei Erthyglau a'i Femorandwm Sefydlu yn rhoi iddo ddyletswydd i weithredu trefn debyg (neu a addaswyd yn briodol).